



CYFRES
FRIFFIO
SEITHFED
SENEDD



ADSS Cymru

Leading Social Services in Wales

Yn arwain Gwasanaethau
Cymdeithasol yng Nghymru

Gofal Cymdeithasol yng Nghymru: Darlun ar gyfer y Seithfed Senedd

Briff i Aelodau'r Senedd
Mai 2026




adss.cymru

Ynglŷn ag ADSS Cymru

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yw ADSS Cymru, y corff arweinyddiaeth broffesiynol ar gyfer cyfarwyddwyr statudol, penaethiaid gwasanaethau ac uwch-reolwyr gwasanaethau cymdeithasol ym mhob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae gan ein haelodau gyfrifoldeb statudol ar y cyd am ofal cymdeithasol ledled Cymru: am wasanaethau plant, gwasanaethau oedolion, diogelu, comisiynu a'r gweithlu.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth agos â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Maethu Cymru, y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, SOLACE Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Cydffederasiwn GIG Cymru, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, ynghyd â Swyddfeydd y Comisiynwyr Plant, Pobl Hŷn a Chenedlaethau'r Dyfodol. Mae gennym hefyd gynghreiriau cryf â sefydliadau gofal cymdeithasol ledled y DU ac rydym yn arwain Cynhadledd Genedlaethol Gofal Cymdeithasol flynyddol glodwiw.

Cynigir y papur hwn i holl Aelodau'r Senedd, ar draws pob grŵp gwleidyddol, fel sylfaen dystiolaeth gychwynnol a rennir. Nid mater pleidiol yw gofal cymdeithasol, mae'n gwestiwn o'r math o gymdeithas y mae Cymru eisiau bod: un sy'n cefnogi pobl, teuluoedd a chymunedau'n dda ac sy'n barod i fuddsoddi mewn gwneud yr ymrwymiad hwnnw'n real.



Beth yw Gofal Cymdeithasol – a beth nad yw Gofal Cymdeithasol

Mae gofal cymdeithasol yn aml yn cael ei gamddeall. Nid gwasanaeth cymorth i bobl hŷn yn unig ydyw, ac nid estyniad o'r GIG sy'n ymyrryd pan fydd ysbytai'n llawn. Mae'n rhywbeth mwy sylfaenol na'r ddau.

Mae gofal cymdeithasol yn galluogi pobl i fyw'r bywydau o'u dewis, gydag urddas, annibyniaeth a chysylltiad â'r cymunedau y maent yn rhan ohonynt. Rydym yn gweithio i amddiffyn a diogelu pobl agored i niwed, gan eu helpu i aros yn ddiogel, yn gysylltiedig ac yn annibynnol. Mae'r system yn cefnogi plant i ffynnu, yn helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd lle mae hynny'n ddiogel, yn galluogi oedolion anabl i hyfforddi, gweithio a chymryd rhan yn eu cymunedau, yn cefnogi gofalmwyr di-dâl i barhau i ddarparu gofal, ac yn atal argyfyngau sy'n llawer mwy costus o ran pobl ac arian.

Nid yw'r 'cymdeithasol' mewn gofal cymdeithasol yn ddamweiniol. Mae'n adlewyrchu sylfaen werthoedd benodol, un sy'n ymwneud â grymuso ac annibyniaeth yn hytrach na gwasanaethau goddefol y mae pobl yn eu derbyn. Mae'n ymwneud â'r hyn y gall pobl ei gyfrannu a'r hyn sy'n bwysig iddynt, yn hytrach na pha wasanaethau sydd ar gael. Mae'n gymaint cymorth a galluogi ag y mae gofal. Mae gofal cymdeithasol ac iechyd yn systemau cyflenwol gyda gwahanol ddibenion. Mae eu cymysgu neu drin gofal cymdeithasol yn unig fel mecanwaith ar gyfer lleddfu pwysau'r GIG yn camliwio'r ddau.

Mae gofal cymdeithasol yng Nghymru yn gweithredu o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – deddfwriaeth flaengar sy'n rhoi'r dinesydd yn y canol, yn hyrwyddo dewis, llais a rheolaeth, ac yn ei gwneud yn ofynnol i weithwyr proffesiynol a phobl sy'n manteisio ar ofal a chymorth weithio fel partneriaid cyfartal. Mae'r sylfaen ddeddfwriaethol honno'n gryfder gwirioneddol ac mae'n un y mae ADSS Cymru wedi cyfrannu ato ac wedi ymrwymo'n llwyr iddo.

Mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, rydym wedi llunio'r [canllaw byr hwn i ofal cymdeithasol yng Nghymru](#). Mae'n rhoi cyflwyniad defnyddiol i beth yw gofal cymdeithasol a sut mae'n cael ei ddarparu a'i reoleiddio.



Graddfa Gofal Cymdeithasol yng Nghymru

Er mwyn deall beth sydd yn y fantol yn y ddadl gyfredol ynghylch cyllido a diwygio gofal cymdeithasol, mae'n helpu i ddeall maint yr hyn y mae'r sector yn ei wneud bob dydd.

Mae graddfa gofal cymdeithasol yng Nghymru yn arwyddocaol, gan gyffwrdd â bywydau degau o filoedd o bobl a theuluoedd ar draws pob cymuned:

- Mae dros 80,000 o bobl yng Nghymru yn defnyddio cynllun gofal a chymorth.
- Mae gan fwy na 60,000 o oedolion gynllun gofal a chymorth, gyda dros 30% ohonynt yn 85 oed neu'n hŷn.
- Mae 37% o oedolion sydd â chynllun gofal a chymorth yn derbyn gofal cartref.
- Mae mwy na 7,000 o blant yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol yng Nghymru.
- Mae dros 300,000 o ofalwyr di-dâl yng Nghymru – ac mae angen eu gofal a'u cymorth eu hunain ar lawer ohonynt yn ogystal â'r bobl y maent yn gofalu amdanynt.

Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu sector sy'n cyflawni – yn aml o dan bwysau difrifol, ac yn aml heb y gydnabyddiaeth y mae'n ei haeddu. Y tu ôl i bob ystadegyn mae unigolyn: plentyn sy'n cael ei gefnogi i aros gyda'i deulu yn hytrach na mynd i ofal; person hŷn sy'n cael ei gefnogi i aros gartref yn hytrach nag yn yr ysbyty neu ofal preswyl; oedolyn anabl sy'n cael ei alluogi i weithio a byw'n annibynnol; gofalwr di-dâl sy'n cael y seibiant sy'n caniatáu iddo barhau i ofalu am ei anwyliad.

Mae gofal cymdeithasol hefyd yn cyflogi mwy na 80,000 o bobl ledled Cymru – gan ei wneud yn un o'r cyflogwyr mwyaf yn y wlad, gyda gweithlu yn bresennol ym mhob cymuned, ym mhob etholaeth.



System dan bwysau difrifol

Mae'r un sector sy'n cyflawni'r canlyniadau hyn hefyd yn wynebu pwysau ariannol a gweithredol sy'n strwythurol, nid yn gylchol, a fydd yn dwysáu oni bai eu bod yn cael sylw.

Y darlun ariannol

Rhagwelir y bydd gorwariant gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer 2025–26 yn £69 miliwn, yn dilyn gorwariant o £107 miliwn yn 2023–24 a £106 miliwn yn 2024–25. Ar gyfer 2026–27, mae'r pwysau rhagweledig yn codi i £201 miliwn — 7.2% o wariant refeniw net — o fewn bwlch ariannu llywodraeth leol ehangach o £560 miliwn. Mae gofal cymdeithasol yn cyfrif am 36% o'r cyfanswm hwnnw.

Nid yw'r gorwariant hwn yn ganlyniad i gamreoli. Mae'n strwythurol, wedi'i lywio gan ffactorau na all unrhyw Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fynd i'r afael ag ef drwy effeithlonrwydd:

- Mae'r galw demograffig yn tyfu'n gyflym. Erbyn 2038, bydd un o bob pedwar unigolyn yng Nghymru dros 65 oed. Disgwylir i aml-forbidrwydd cymhleth, pobl sy'n byw gyda dau gyflwr hirdymor neu fwy y mae angen gofal cydlynol arnynt, bron ddyblu erbyn 2035. Mae aml-forbidrwydd hefyd yn datblygu'n gynharach mewn cymunedau mwy difreintiedig, sy'n golygu bod oedolion iau yn ogystal â phobl hŷn yn profi anghenion cymhleth fwyfwy.
- Mae cymhlethdod cynyddol yn golygu bod pob lleoliad, asesiad a phhecyn gofal yn costio mwy nag yr oedd ddegawd yn ôl.
- Mae ymrwymadau polisi, y rhai cywir yn aml, wedi ychwanegu cost strwythurol heb gyllid strwythurol, gan gynnwys newidiadau i Yswiriant Gwladol a rhwymedigaethau Cyflog Byw Gwirioneddol.
- Mae pwysau ar y rhyngwyneb rhwng iechyd a gofal cymdeithasol yn sylweddol ac yn cael eu tan-gydnabod. Mae Gofal Iechyd Parhaus i oedolion a phlant yn cael ei gymhwyso'n anghyson ledled Cymru a lle mae cymhwysedd yn cael ei ddehongli'n gul, mae'n rhaid i awdurdodau lleol dalu costau heb gyllid cyfatebol.

Ar ben hynny, mae dibyniaeth ar grantiau wedi creu seilwaith ataliol bregus.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi dweud bod rhai awdurdodau lleol ar 'ymyl cynaliadwyedd ariannol'. Mae'r rhan fwyaf o Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, pan arolygwyd, yn graddio eu cyllidebau fel rhai annigonol i ddiwallu'r galw presennol. Nid oes yr un yn graddio eu cyllid fel rhai digonol iawn.



Y Gweithlu

Mae gan Gymru tua 80,000 o bobl yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol rheoleiddiedig. Mae cyfraddau swyddi gwag mewn gwaith cymdeithasol yn rhedeg ar 10–15%; mewn rhai rolau gofal rheng flaen maent yn uwch fyth. Mae trosiant uchel, cyflog nad yw wedi cadw i fyny â rolau cymharol yn y sector cyhoeddus, a dim llwybrau gyrfa cyson yn weladwy i'r rhai sy'n ymuno â'r proffesiwn yn creu sector mewn cylch recriwtio bron yn barhaol.



Mae gwahaniaethau cyflog rhwng gofal cymdeithasol a'r GIG yn lleihau capasiti arbenigol yn weithredol. Mae therapyddion galwedigaethol, gweithwyr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy, nyrsys mewn gofal cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol profiadol yn symud i rolau yn y GIG am well cyflog a thelerau. Mae Cymru, i bob pwrpas, yn hyfforddi arbenigwyr ar gyfer y GIG ar draul gofal cymdeithasol.

Mae ADSS yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i fynd i'r afael â rhai o'r materion sylfaenol, fel datblygu Academi Gofal Genedlaethol a chreu fframweithiau cyflog a datblygiad priodol ar gyfer y sector; fodd bynnag, mae recriwtio a chadw staff gyda'r sector yn parhau i fod yn her.

Gwasanaethau Plant

Mae gwasanaethau plant dan straen arbennig. Ledled Cymru, mae gwasanaethau plant wedi datblygu cymorth teuluol gwell i helpu i atal yr angen i blant ddod i ofal. Fodd bynnag, gyda phwysau cymdeithasol a theuluol cynyddol, nid yw pob plentyn yn gallu byw'n ddiogel gartref. Prinder lleoliadau addas ar gyfer plant ag anghenion cymhleth yw'r ffactor mwyaf cyffredin sy'n achosi pwysau cyllidebol. Mae angen cymhareb staffio dwys ar rai plant sy'n costio hyd at £1 filiwn y plentyn yn flynyddol. Mae oedi cyn cael Cymorth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) yn gyson yn llywio'r broses o waethygu o angen iechyd meddwl i argyfwng gofal cymdeithasol statudol. Byddai buddsoddiad cynharach gan y sector iechyd yn iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn atal llawer o'r cynnydd hwn a'r costau dynol ac ariannol gydol oes sy'n dilyn. Mae digonolrwydd maethu yn lleihau ar draws llawer o Gymru.

Mae'r newid i ofal preswyl plant nid-er-elw, o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025, yn cael ei gefnogi gan ADSS Cymru a'n haelodau.

Mae dros 200 o welyau wedi'u datblygu neu maent yn cael eu datblygu. Fodd bynnag, mae'r newid yn cynnwys risgiau gwirioneddol i'r gweithlu ac ariannol y mae'n rhaid eu cyfarfod â dealltwriaeth onest a buddsoddiad cynaliadwy.



Y gorchymyn atal

Ar draws pob rhan o ofal cymdeithasol, mae'r dystiolaeth yn gyson: mae'r ymyriadau mwyaf pwerus a chost-effeithiol yn digwydd yn gynnar, ymhell cyn argyfwng. Hyd yn oed o fewn rhai o'r sefyllfaoedd mwyaf cymhleth, mae gofal cymdeithasol yn cynnal ei bwyslais ar ymyriadau sy'n canolbwyntio ar ataliaeth sy'n helpu i leihau risg a datblygu atebion cynaliadwy.

Ac eto mae atal yn cael ei danariannu'n gronig a'r gwasanaethau sy'n ei ddarparu yw'r cyntaf i gael eu torri pan fydd cyllidebau dan bwysau, yn union oherwydd nad ydynt yn statudol yn yr un modd ag ymateb i argyfwng.

Mae pob £1 a fuddsoddir mewn gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru yn dychwelyd £2.78 mewn buddion economaidd-gymdeithasol. Nid yw gwasanaethau atal, cyfleoedd dydd, cymorth i deuluoedd, seibiant, lles cymunedol, yn gost. Maent yn fuddsoddiad sy'n lleihau cost ymyrraeth adweithiol, sy'n cael ei llywio gan argyfwng, llawer yn fwy.

Mae gan Gymru tua 370,000 o ofalwyr di-dâl, asgwrn cefn y system ofal. Mae eu gallu i gynnal rolau gofalu yn dibynnu ar y seibiannau byr, y gwasanaethau seibiant a'r cymorth cymunedol y mae pwysau cyllidebol wedi'u lleihau'n sylweddol.

Mae llywodraeth leol mewn sefyllfa unigryw i hyrwyddo dull system gyfan o atal, gan ddod â thai, hamdden, addysg, trafnidiaeth a gofal sylfaenol ynghyd o amgylch nodau cyffredin o lesiant a chysylltiad cymunedol. Dyma'r ddadl dros gadw gofal cymdeithasol wedi'i wreiddio yn llywodraeth leol: mae awdurdodau lleol yn adnabod eu cymunedau, yn cynnal y perthnasoedd ac yn gallu ymgynnull ar draws systemau mewn ffyrdd na all cyrrff cenedlaethol neu ranbarthol eu gwneud.



Beth mae hyn yn ei olygu i Aelodau'r Senedd

Mae pob etholaeth yng Nghymru yn cynnwys pobl sy'n defnyddio gofal cymdeithasol a gweithlu sy'n ei ddarparu bob dydd. Mae gofal cymdeithasol yn broffesiwn medrus ond nid yw'n bryder arbenigol. Mae'n wasanaeth cyffredinol y bydd ei angen ar y rhan fwyaf o bobl ar ryw adeg yn eu bywydau. Mae'n rhan hanfodol o lawer o economïau cymunedol ledled Cymru.



Mae Cyfres Briffio Seithfed Senedd ADSS Cymru yn nodi ein blaenoriaethau manwl ar draws chwe thema: cyllid cynaliadwy; atal a lles cymunedol; trawsnewid gwasanaethau i blant, teuluoedd ac oedolion; trawsnewid digidol; y gweithlu; a diogelu plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref. Mae pob briff yn gofyn yn benodol ac yn tynnu sylw at gyfle penodol. Y papur hwn yw'r ymbarél y mae'r dadleuon manwl hynny'n eistedd oddi tano.

Mae deall y darlun cenedlaethol yn fan cychwyn. Fodd bynnag, mae gofal cymdeithasol, yn ei hanfod, yn wasanaeth lleol, wedi'i lunio gan angen lleol, wedi'i ddarparu drwy berthnasoddd lleol ac yn atebol i gymunedau lleol. Y ffordd fwyaf pwerus i Aelod Senedd ei ddeall yw ei weld, ei deimlo a'i brofi.



Ein gwahoddiad i chi

Ymgysylltwch â thimau gwasanaethau cymdeithasol eich awdurdod lleol

Mae pob ffin etholaeth yn y Senedd yn gorgyffwrdd ag un neu fwy o 22 o awdurdodau lleol Cymru. Mae gan y cyfarwyddwyr statudol, penaethiaid gwasanaethau ac uwch-reolwyr gweithredol o fewn yr awdurdodau hynny'r darlun manwl o sut olwg sydd ar ofal cymdeithasol yn eich ardal chi, y pwysau maen nhw'n eu hwynebu, y dulliau arloesol maen nhw'n eu datblygu a pha gefnogaeth well gan Lywodraeth Cymru a'r Senedd fyddai'n bosibl.

Mae ADSS Cymru yn gwahodd yn gynnes holl Aelodau'r Senedd i gysylltu â Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn yr awdurdodau lleol yn eu hetholaethau. Gallwn hwyluso'r cyflwyniadau hynny.

Gweler gwasanaethau rheng flaen yn eich cymuned

Ni all unrhyw bapur briffio, gan gynnwys yr un hwn, ddisodli gweld gofal cymdeithasol yn ymarferol. Rydym yn annog pob Aelod o'r Senedd i ymweld â gwasanaethau rheng flaen yn eu hardal: cartref gofal preswyl i oedolion neu bobl hŷn; tîm gofal cartref; gwasanaeth dydd i bobl ag anableddau dysgu; canolfan cymorth i deuluoedd; gwasanaeth ail-alluogi sy'n cefnogi pobl sy'n dod adref o'r ysbyty. Nid yw cwmpas a chyrhaeddiad yr hyn y mae gofal cymdeithasol yn ei wneud yn cael ei ddeall mewn gwirionedd nes ei fod yn cael ei weld.

Siaradwch â phobl sydd â phrofiad byw

Yn anad dim, rydym yn eich annog i siarad â phobl sy'n manteisio ar ofal a chymorth a'r rhai sy'n ei ddarparu fel gofalcwyr di-dâl. Eu profiad nhw yw'r cyfrif mwyaf uniongyrchol a gonest o bwrpas y system gofal cymdeithasol, yr hyn y mae'n ei gyflawni yn ogystal â lle y gallai fod yn methu. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi ei llais wrth wraidd pob penderfyniad. Dylai fod wrth wraidd gwaith craffu'r Senedd hefyd.

Mae ADSS Cymru yn barod i gefnogi Aelodau'r Senedd ar draws pob grŵp gwleidyddol i ymgysylltu â gofal cymdeithasol yn eu hardaloedd. Boed hynny'n hwyluso cyflwyniadau i Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol awdurdodau lleol, yn helpu i drefnu ymweliadau gwasanaeth, neu'n darparu tystiolaeth ar gyfer gwaith pwyllgor, rydym yma i helpu.

Am ragor o wybodaeth:

Uned Fusnes ADSS Cymru, Tŷ Antur, Parc Navigation, Abercynon, CF45 4SN

adss.cymru